# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy a S. Lloyd-Selby

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a’r Fro), G. Doyle, a V. John (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid), Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), E. Goodjohn, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

184 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol”.

185 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr M.J.G. Morgan and S.D. Perkes a D. Dutch a H. Smith (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid)

186 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

187 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd Aviet fuddiant yn Eitemau Agenda 4 a 5 – Cau Cyfrifon 2022/23 a Chau Cyfrifon Cyfalaf 2022/23, yn y drefn honno. Natur ei buddiant yn y ddwy eitem oedd ei bod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd Hennessy fuddiant yn Eitemau Agenda 4 a 5 – Cau Cyfrifon 2022/23 a Chau Cyfrifon Cyfalaf 2022/23, yn y drefn honno. Natur ei fuddiant yn y ddwy eitem oedd ei fod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Hennessy yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

188 CAU CYFRIFON 2023/23 (CAT) –

Cyflwynodd y Rheolwr Cymorth Cyllid yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol dros dro'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd hyn dros dro hyd adolygiad terfynol gan Archwilio Cymru.

Fe wynebodd y Cyngor bwysau refeniw sylweddol yn ystod 2022/23. Roedd pwysau penodol yn ymwneud ag effaith barhaus pandemig Covid-19, pwysau chwyddiant yn enwedig o ran contractau a phwysau cyflog. Bu pwysau galw sylweddol hefyd ar ddigartrefedd, Gwasanaethau Plant a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Er gwaethaf y pwysau hyn, roedd sefyllfa refeniw diwedd y flwyddyn yn sefyllfa o adennill costau ar ôl £17.029m o drosglwyddiadau net o gronfeydd wrth gefn. Roedd hyn yn cynnwys £987k a drosglwyddwyd o Gronfa'r Cyngor, £953k o'r Cyfrif Refeniw Tai, £11.785m a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn penodol o refeniw a £15.554m a drosglwyddwyd o gronfeydd wrth gefn penodol i ddarparu cyllid untro ar gyfer prosiectau a £12.307m o gronfeydd wrth gefn i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf ac ar gyfer dadleoli a oedd yn ofynnol gan grantiau cyfalaf. £11.523m oedd gan Gronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2023.

Cyfeiriodd yr adroddiad at y meysydd hynny o'r cyfrifon a oedd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor, ac a oedd yn rhan o'i gylch gwaith. Roedd yr uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Gorffennodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) y flwyddyn gydag amrywiant ffafriol oherwydd ad-daliad ar gyfraddau annomestig amrywiol ac arbediad ar gostau staff oherwydd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn.
- Roedd y Gwasanaethau Rheoleiddio a Chronfa Dai'r Cyngor yn adennill costau hefyd oherwydd ffactorau amrywiol, gan gynnwys tanwariant, trosglwyddo cronfeydd wrth gefn a chyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru (LlC).
- Roedd gan Dai Preifat amrywiant niweidiol o £2k yn bennaf oherwydd swydd therapydd galwedigaethol yn yr adran Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.
- Gwnaeth y Cyfrif Refeniw Tai ddefnyddio llai o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £953k nag a ragwelwyd, gan leihau lefel ei gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i £16.486m.
- Roedd targed arbedion refeniw ar draws y Cyngor o £500k wedi'i osod ar gyfer 2022/23 a chafodd balans yn weddill ar gyfer 2021/22 sef £170k hefyd ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Er bod rhai arbedion wedi'u nodi trwy danwariant yn ystod y flwyddyn fel swyddi gwag, roedd gwasanaethau wedi symud i nodi'r rhain ar sail fwy cynaliadwy ar gyfer 2023/24.

- Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cyllideb 2023/24, cynhaliwyd adolygiad o gronfeydd wrth gefn a gwnaed rhywfaint o ailddyrannu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n fwy cywir risgiau cyllidebol allweddol ar gyfer y rhestr ddiweddaraf o gronfeydd wrth gefn corfforaethol, gan gynnwys y gronfa ddigartrefedd a thai wrth gefn.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI’r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

189 CAU CYFRIFON CYFALAF 2022/23 (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynodd y Rheolwr Cymorth Cyllid, fanylion sefyllfa dros dro diwedd y flwyddyn ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Roedd unrhyw lithriad a grybwyllwyd yn yr adroddiad wedi cael ei gymeradwyo dan bwerau brys.

Roedd y sefyllfa gyffredinol ar Raglen Gyfalaf ddiwygiedig 2022/23 yn amrywiant o £1.677m yn erbyn Rhaglen wedi'i haddasu o £82.468m. Roedd y sefyllfa o ran y Pwyllgor hwn a'r gyllideb yn amrywiant o -£1.019m yn erbyn Rhaglen wedi'i haddasu o £22.523m. Cofnodwyd mai £23.542m oedd yr alldro ar gyfer y Pwyllgor Craffu a gofynnwyd am lithriad o -£1.249m.

Roedd y sefyllfa gorwariant yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o'r gyllideb wedi’i llithro ymlaen nag a oedd yn angenrheidiol, felly rhoddwyd cymeradwyaeth i wyrdroi elfen o'r llithriad hwnnw yn ôl i 2022/23 a chynhwyswyd y symiau llithriad cymeradwy ar gyfer y Pwyllgor hwn yn Atodiad 3 yr adroddiad.

Amlygwyd llwyddiannau Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, yn enwedig y meysydd hynny o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel datblygiad rhent cymdeithasol Hayes Road.

Roedd y dadansoddiad o alldro ar gyfer meysydd yn ymwneud â'r Pwyllgor hwn gan y Gyfarwyddiaeth ar gael yn atodiadau’r adroddiad, gan fod y cyllidebau cysylltiedig yn torri ar draws gwahanol Gyfarwyddiadau.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwnaeth yr Is-Gadeirydd sylwadau ar y Cynllun Gwella Tai a phwysigrwydd y Cyngor yn gweithredu hyn o ran tai cymdeithasol, gan gynnwys adeiladu tai Cyngor yn barhaus. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r pwysau ar y sector rhent preifat a landlordiaid, lle'r oedd niferoedd sylweddol yn ystyried gwerthu eu heiddo oherwydd costau cynyddol.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI sefyllfa gyfalaf diwedd y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

(2) NODI cyllidebau cynllun ychwanegol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(3) NODI sefyllfa gryno y newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf gan y Gyfarwyddiaeth ogymeradwyaeth yn y Cyngor ar 7 Mawrth, 2022 i 31 Mawrth, 2023 fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

(4) NODI'r Pŵer Brys a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

190 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2022/23 (CAT) -

Cyflwynodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yr adroddiad perfformiad a amlinellodd gynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023) tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol. Rhoddodd y Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) 'giplun' blwyddyn o hyd o berfformiad y Cyngor yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch4 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 95% (52 allan o 55) a statws Coch i 5% (3). O'r 17 mesur a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 71% (12), statws Oren i 23% (4) a statws Coch i 23% (4).

Bwriad y cyflwyniad atodol oedd rhoi trosolwg i'r Aelodau o berfformiad diwedd y flwyddyn yn gynharach yn y flwyddyn galendr ar gyfer y meysydd hynny dan gylch gwaith y Pwyllgor a dan 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys enghreifftiau perthnasol o gyflawniadau h.y. y cyfleoedd parhaus ar gyfer profiad gwaith a phrentisiaethau i drigolion lleol a'r gwaith a wneir drwy'r 'siop Un Stop' yn y Barri a'r Tîm Cyngor Ariannol i gefnogi trigolion lleol a thenantiaid gyda materion ariannol, materion lles a materion eraill. Cyfeiriwyd hefyd at feysydd y mae angen eu gwella, h.y. adolygu rhaglenni adeiladu oherwydd costau cynyddol.

Yn gyffredinol, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch4 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran cyflawni ymrwymiadau CCB y Cyngor ar gyfer 2022/23.

Er mwyn hwyluso cyfeirio, tynnodd eithriadau perfformiad yn cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu sylw at statws presennol y camau perfformio Coch a nodwyd yn y chwarterau blaenorol i ddangos cyfeiriad teithio ar ddiwedd y flwyddyn. Galluogodd hyn i'r Aelodau fesur yn gyflym a oedd camau unioni arfaethedig wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn i ddatblygu'r camau hyn.  Roedd y dull hwn o adrodd eithriadau yn adlewyrchu'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan yr Aelodau Etholedig i waith monitro perfformiad y CCB.  Ar gyfer y Pwyllgor hwn, roedd yr eithriadau yn cynnwys cyflenwi llety rhent y Cyngor, hygyrchedd gwasanaethau addasedig Greenlinks ar gyfer trigolion anabl, trosiant eiddo gwag, ac ati.  Nodwyd y rhesymeg dros yr eithriadau hyn a'r mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain wrth symud ymlaen yn yr adroddiad.

Yn dilyn cyflwyno’r adroddiad, cafodd nifer o sylwadau eu gwneud a chwestiynau eu gofyn gan y Pwyllgor, gan gynnwys:

- O ran ymholiad y Cadeirydd ynghylch Gweithredu Cynllun Gwasanaeth NS/A010 a chyfarfod diweddar Fforwm 50+ Bro Morgannwg mewn perthynas â gwella hygyrchedd trafnidiaeth gwasanaeth addasedig Greenlinks (gan gynnwys mater safleoedd bysus ac arddangosfeydd / arwyddion gwybodaeth), esboniwyd bod llawer o bobl wedi mynd i’r digwyddiad hwn (gan gynnwys Hyrwyddwr Pobl Hŷn y Cyngor), a bod swyddogion y Cyngor wedi trafod y materion hyn yn helaeth gydag ystod amrywiol o fynychwyr a'r materion trafnidiaeth ehangach ar gyfer y Fro, yn ogystal â'r ffordd ymlaen. Derbyniwyd y rhain yn gadarnhaol gan y Fforwm ac roedd swyddogion y Cyngor wedi cael gwahoddiad i fynd i gyfarfodydd pellach y Fforwm o ganlyniad.
- O ran sylwadau'r Cynghorydd Campbell ar Weithredu Cynllun Gwasanaeth NS/A010 ac angen y Cyngor i ganolbwyntio ar wella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus y Fro, ac nid dim ond y seilwaith ategol (h.y. safleoedd bysus) esboniwyd na allai'r Cyngor, er bod ganddo reolaeth dros y briffordd (ac felly'r gallu i wella safleoedd bysus cysylltiedig, ac ati) reoli neu ddylanwadu ar y cwmnïau bysus preifat a oedd yn eu defnyddio na pha lwybrau yr oeddent am eu gwasanaethu.  Roedd cwmnïau'n rhydd i benderfynu pa lwybrau oedd yn fasnachol hyfyw.  Fodd bynnag, roedd yn bwysig i'r Cyngor gynnal seilwaith o'r fath ar gyfer eu defnydd parhaus neu bosibl wrth symud ymlaen.  Roedd yn bwysig bod y Cyngor a'r Aelodau Etholedig yn annog trigolion lleol i ddefnyddio bysus a mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus er buddion iechyd ac amgylcheddol yn ogystal â diogelu gwasanaethau hanfodol ar gyfer aelodau mwy agored i niwed y gymuned.  Dewis posibl arall i'r Cyngor oedd edrych ar ddefnyddio Greenlinks i helpu i 'lenwi'r bylchau' yn y maes hwn.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Lloyd-Selby ar raglen adeiladu tai'r Cyngor ac a fyddai'r cynlluniau arfaethedig yn dal i gael eu cyflawni ar amser yn wyneb pwysau costau byw parhaus, prisiau deunyddiau cynyddol, ac ati, esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau nad oedd unrhyw bryderon ynghylch amseroldeb neu gyflawnadwyedd y cynlluniau adeiladu tai sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.  Roedd gwaith yn cael ei wneud rhwng Cynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd i sefydlu partneriaeth dai er mwyn symleiddio prosesau a gwella arferion caffael o ran adeiladu tai, a thrwy hynny gyflymu’r gwaith o gwblhau'r cynlluniau hyn a chreu 'màs critigol' er mwyn denu

contractwyr adeiladu tai i helpu i fwrw ymlaen â rhaglen adeiladu tai'r Cyngor. Roedd y Cyngor hefyd wedi ymgymryd â’r gwaith o adeiladu eiddo yn Hayes Wood, ar ôl i Jehu dynnu'n ôl ac i gwmni rheoli gael ei gyflogi wedyn i gynorthwyo. Y fantais i'r Cyngor oedd delio ag isgontractwyr yn uniongyrchol a'r gallu i ddefnyddio gweithwyr lleol i helpu i gefnogi’r economi leol. Yn y tymor hwy, y brif her o ran adeiladu tai fyddai caffael tir lleol ychwanegol. Fodd bynnag, roedd gwaith yn cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru (LlC) a phartneriaid eraill ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio a datblygu tir y gallent fod yn berchen arno yn y Fro.

- Gofynnodd y Cynghorydd Aviet ynghylch Dangosydd Perfformiad CPM/092 yn ymwneud â llety gwag y Cyngor, a'r gostyngiad mewn perfformiad o ran cwblhau gwaith i wneud yr eiddo’n rhai y gellir byw ynddynt, gan awgrymu y gallai fod yn gyflymach i denantiaid newydd addurno neu wneud gwaith tebyg eu hunain mewn rhai achosion, gyda'r Cyngor yn darparu'r deunyddiau perthnasol i helpu i gyflawni hyn. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau a Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Tai Cyhoeddus, er y gellid rhoi pecynnau paentio/addurno i denantiaid, fod y gwaith a wneir gan staff y Cyngor mewn eiddo o'r fath yn aml yn cynnwys agweddau ehangach ar waith cynnal a chadw yn ogystal ag addurno gyda'r angen i sicrhau bod llety i denantiaid yn bodloni iteriad diweddaraf Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Hefyd, efallai na fydd tenantiaid newydd yn gallu ymgymryd â'r gwaith hwnnw eu hunain oherwydd eu hamgylchiadau neu bethau sy’n eu gwneud yn agored i niwed, yn ogystal ag amgylchiadau ariannol ac felly roedd angen cydbwysedd rhwng caniatáu i denantiaid addurno/adnewyddu eiddo'r Cyngor eu hunain a'r Cyngor neu weithwyr proffesiynol eraill yn ymgymryd â gwaith o'r fath pan na allai tenantiaid ei wneud eu hunain, a thrwy hynny beidio â 'pharatoi pobl i fethu' yn eu tenantiaeth. O ran y pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd ar loriau mewn eiddo hŷn y Cyngor (fel y rhai sy'n cynnwys bwrdd sglodion), dywedwyd wrthi i hysbysu’r Gwasanaethau Tai ac Adeiladau pe bai ganddi unrhyw enghreifftiau penodol o hyn fel y gellid eu cywiro.
- Gofynnodd yr Is-gadeirydd a oedd costau cynyddol atgyweiriadau i lety 'gwag' ac eraill, yn ogystal â'r cynnydd yn nifer yr eiddo y bernir bellach bod angen llawer o waith arnynt yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl a materion eraill y gall rhai tenantiaid y Cyngor fod yn eu profi yn ystod yr argyfwng costau byw presennol ac anawsterau ariannol sy'n cael eu hwynebu. Esboniwyd bod eiddo gwag yn bennaf o ganlyniad i denantiaeth yn dod i ben yn hytrach nag oherwydd caledi ariannol a throi allan, oherwydd bod y Cyngor a phob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi llofnodi cytundeb gyda LlC i gyfyngu ar achosion o droi allan (dim ond mewn amgylchiadau eithriadol) o ystyried yr argyfwng economaidd presennol ac roedd y Cyngor yn ceisio helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau trwy gymorth gyda'r Tîm Cyngor Ariannol ac ati. Roedd y cynnydd mewn atgyweiriadau mawr o ganlyniad i ddod ar draws problemau fel lleithder mewn eiddo hŷn y Cyngor a'r Cyngor yn gwneud atgyweiriadau o'r fath pan fo’r eiddo yn wag yn lle tarfu ar denantiaid sy’n byw yn yr eiddo. Ychwanegwyd bod tenantiaethau’n dod i ben yn bennaf oherwydd bod tenantiaid yn anffodus yn marw neu'n gorfod mynd i gartref nyrsio, ond gellid archwilio hefyd ‘ddadansoddiad manwl’ pellach o'r costau ailgodi a'r rhesymau i weld a allai'r Cyngor gydberthyn hyn â gwybodaeth am ôl-ddyledion rhent neu incwm aelwydydd neu a oedd patrwm o ran y math o stoc eiddo ac ati.

- Roedd yr Is-gadeirydd hefyd yn teimlo y dylai'r Cyngor fod yn ystyried ehangu prentisiaethau i feysydd fel adeiladu tai a meysydd eraill o angen.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Lloyd-Selby ynghylch a fyddai'r Cyngor yn helpu i hyrwyddo Rhaglen Cartrefi Cynnes Cymru newydd LlC (er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, mynd i'r afael â lleithder mewn tai, ac ati) ymhlith landlordiaid a thenantiaid yn y sector rhent preifat, cadarnhawyd y byddai'r Cyngor yn helpu i hyrwyddo'r cynllun hwn ac y byddai'n cynnig cymorth drwy'r cyfarwyddiaethau, y gweithgorau a’r timau perthnasol i denantiaid a landlordiaid yn y sector rhent preifat h.y. y Tîm Eiddo Corfforaethol ynghylch cyngor ar arbed ynni a'r Swyddog Cartrefi Gwag i helpu gyda chyllid i landlordiaid adnewyddu tai gwag i’w defnyddio eto ac i sicrhau eu bod yn bodloni’r safon angenrheidiol. Awgrymodd y Cynghorydd y dylai'r Aelodau Etholedig gael sesiwn friffio ar y maes hwn gan y gweithgor/gweithgorau perthnasol er mwyn helpu i gyfleu hyn i drigolion a thenantiaid y Fro yn y sector rhent preifat drwy gymorthfeydd a’r cyfryngau cymdeithasol. Byddai hyn yn cael ei ystyried er mwyn trefnu dyddiad yn y dyfodol.
- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau wrth y Pwyllgor, ynghylch Dangosydd Perfformiad PAM/036 (nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn fesul 10,000 o aelwydydd), er bod hyn yn ymddangos yn Goch, nad oedd hyn yn ffigwr blwyddyn lawn, a oedd yn dangos mewn gwirionedd bod y Cyngor wedi bwrw’r targed hwn (26 fesul 10,000 o aelwydydd).

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI’r canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI’r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1a2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.